


# *PROTOCOL*
# *DYSGWYR SY'N ANODD EU LLEOLI*



Mehefin 24

## PROTOCOL DYSGWYR ANODD EU LLEOLI

### Cyflwyniad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sy'n gyfrifol am dderbyn plant i bob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir yn Nhorfaen. Mae’r cyfrifoldeb hwn yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ac fe’i nodir ym Mholisi’r Cyngor ar Dderbyn i Ysgolion.

Nod y polisi yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at addysg briodol, a hynny’n gyflym. Fodd bynnag, mae cyfleoedd addysgol i rai dysgwyr yn peri risg am eu bod o bosib yn cael eu hystyried yn fregus am wahanol resymau, a gallai hyn arwain at oedi cyn eu derbyn mewn ysgol, neu o bosib, methu â chael lle mewn ysgol o ganlyniad i hyn. Felly, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau i lwyddo, mae gan y Cyngor brotocol ‘Dysgwyr Sy’n Anodd eu Lleoli’ i dderbyn y dysgwyr mwyaf bregus a’r rheini sydd ag ymddygiad heriol, y tu allan i’r cylch derbyn arferol.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Chod Derbyn i Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru a Pholisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

### Amcanion y polisi

a. Sicrhau bod anghenion dysgwyr bregus sy'n trosglwyddo y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn cael lle mewn ysgol, a hynny o fewn cyfnod amserol.

b. Sicrhau bod cefnogaeth i dderbyn dysgwyr ‘Anodd eu lleoli’ fel bod y lleoliad yn llwyddo.

c. Sicrhau bod y broses yn agored ac yn deg.

ch. Sicrhau bod cytundeb i dderbyn dysgwr sy’n destun y protocol hwn i’r ysgol o fewn ugain diwrnod ysgol o ddyddiad derbyn y cais.

d. Disgwylir i'r ysgol bresennol (os yw'r dysgwr dan sylw yn mynychu ysgol yn Nhorfaen) wedi dilyn yr holl ganllawiau a phrosesau presennol mewn perthynas ag unrhyw ddysgwr sy'n wynebu unrhyw Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol.

### Dysgwyr a allai elwa

Er bod y mwyafrif o’r ceisiadau i dderbyn yn ystod y flwyddyn yn cael eu rheoli drwy’r broses arferol i dderbyn i ysgolion, mae ceisiadau mwy cymhleth i drosglwyddo yn ystod y flwyddyn i addysg brif ffrwd yn cael eu prosesu’n unol â’r polisi hwn. Mae atgyfeiriadau mwy cymhleth yn gyffredinol yn cynnwys dysgwyr bregus sy'n debygol o wynebu anawsterau o ran cael lle mewn ysgol, a bydd fel arfer yn cynnwys dysgwyr o oedran ysgol gorfodol, sydd:

- Wedi cael eu gwahardd yn barhaol o ysgol;
- Wedi bod allan o fyd addysg ers peth amser (deufis neu fwy) a chanddynt broblemau difrifol o ran presenoldeb er y cyswllt parhaus gan y Gwasanaeth Lles Addysg (yn dilyn eu hymateb graddedig) a bod angen iddynt ddechrau o’r newydd rhywle arall.
- Wedi dewis addysg yn y cartref, ac mae eu hachos yn fwy cymhleth, sy’n eu gwneud yn anoddach i’w lleoli.
- Heb gael fawr o brofiad blaenorol o addysg ffurfiol a/neu sy'n newydd i ddysgu Saesneg neu Gymraeg;

- Wedi dod i gyswllt â’r Tîm Troseddau Ieuenctid ac angen newid lleoliad addysg neu gael eu hailddebyn i addysg prif ffrwd;
- Mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion neu leoliad arbenigol arall ond sydd bellach yna barod i gael eu hail-gynnwys mewn addysg prif ffrwd. Bydd rhai o'r dysgwyr hyn yn dal i fod ar gofrestr eu hysgol flaenorol gyda'r bwriad y byddant yn dychwelyd yno, ond efallai y bydd rhai rhieni yn dymuno i'w plentyn/plant fynychu ysgol brif ffrwd arall.
- Mewn llety dros dro  hy yn derbyn cymorth lloches;
- Yn ofalwyr;
- Wedi cael eu tynnu o'r ysgol gan eu teulu, yn dilyn gwaharddiadau tymor penodol;
- Y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol cymhleth ond efallai nad oes ganddynt ddatganiad AAA/CDU -
- Cadarnheir bod ganddynt anghenion cymhleth mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles.

Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn derbyn gofal ar hyn o bryd, neu sydd wedi derbyn gofal o'r blaen, na dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol neu Ddatganiad AAA.

Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i ddysgwyr sydd wedi bod trwy'r broses dderbyn a’r broses apelio ac sy'n parhau i fod yn anfodlon â'r canlyniad.

Bydd dysgwyr eraill sydd angen lle mewn ysgol yn parhau i gael eu lleoli’n unol â'r gweithdrefnau derbyn arferol.

**Egwyddorion**

Yr egwyddor gyntaf ar gyfer pob achos sy'n cael ei ystyried o dan y polisi hwn yw anghenion y dysgwr.

Dilynir hyn yn agos drwy geisio sicrhau nad oes angen i unrhyw ysgol unigol, gan gynnwys y rhai sydd â lleoedd, dderbyn nifer anghymesur o ddysgwyr ag angen penodol, neu sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill.

Dewis y rhieni sy’n arwain y penderfyniadau. Er y byddai'r ALl yn gallu cynghori rhiant nad yr ysgol y maent wedi'i dewis, o bosib, yw'r mwyaf priodol, rhoddir blaenoriaeth i ddewis y rhieni yn y pen draw, ac nid yw'r ALl yn gallu gwrthod derbyn i ysgol os oes lleoedd ar gael.

Mae cyfrifoldeb ar y cyd am y bobl ifanc dan sylw a'r hyn fydd yn allweddol i weithredu'r polisi yn llwyddiannus fydd:

- Symlrwydd;
- Tegwch rhwng ysgolion;
- Cyfranogiad llawn;
- Cyfnewid gwybodaeth yn onest;
- Ymdeimlad o frys i sicrhau bod yr wybodaeth o ansawdd priodol ar gael.

### Sut mae ceisiadau 'Anodd eu lleoli' yn cael eu prosesu

Disgwylir y bydd pob parti yn gweithredu’n ddi-oed i ganfod lle mewn ysgol i unrhyw ddysgwr sy'n destun y polisi hwn, i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei dderbyn i ysgol addas cyn gynted â phosibl. Gall hyn o bosib, gynnwys derbyn dysgwyr i ysgolion sydd eisoes yn llawn. Ni ddylid gwrthod cais 'Anodd Eu Lleoli' oherwydd y nifer derbyn yn unig. Nid yw’r ALl yn gallu gwrthod lle mewn ysgol nad yw’n llawn, ac mae gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad pan na chynigir lle yn yr ysgol a ffefrir os yw’r ysgol eisoes wedi cyrraedd ei chapasiti (Cod derbyn i ysgolion LlC 3.61).

Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn cyfeirio holl drosglwyddiadau uwchradd sy’n 'Anodd eu Lleoli' yn ystod y flwyddyn i'r Panel Symudiadau a Reolir (Y Panel) i rannu gwybodaeth. Mae’r broses fel a ganlyn;

1. Mae'r cais yn ystod y flwyddyn yn cael ei dderbyn a'i adolygu gan y Tîm Derbyn i Ysgolion. Anfonir ffurflen newid lleoliad i'r ysgol gyfredol/blaenorol i'w chwblhau o fewn 5 diwrnod ysgol. Gellir gofyn bod y gwaith papur hwn yn cael ei lenwi, ond nid ei orfodi. Ni all diffyg gwybodaeth gan ysgol ohirio’r penderfyniad, a fydd, mewn achosion o'r fath, yn cael eu cymryd ar sail yr wybodaeth a ddarperir gyda'r cais.
2. Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn derbyn y wybodaeth ac yn ei hadolygu i benderfynu a yw’n diwallu meini prawf cais “Dysgwyr Anodd eu lleoli”.
3. Os felly, cyfeirir y cais at y Panel fydd yn ei ystyried/rhannu gwybodaeth o dan y polisi hwn, gan nodi dewis y rhieni.
4. Unwaith y cynigir lle mewn ysgol, disgwylir y bydd trefniadau derbyn yn cael eu gwneud o fewn 20 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad.
5. Argymhellir drwy gydol y cyfnod trosglwyddo bod yr ysgol newydd a’r ysgol flaenorol yn cysylltu â rhannu gwybodaeth a bod yr ysgolion yn cysylltu i rannu gwybodaeth a defnyddio gwasanaethau ADY Torfaen yn ôl yr angen a gweithredu’r strategaethau a awgrymir yn eu hysgol eu hunain.

### Canlyniadau posib

1. Dysgwr yn cael ei dderbyn i'r ysgol o’i ddewis cyntaf; neu,
2. Cynigir lle i’r dysgwr mewn ysgol arall (os yw’r ysgol yn llawn ac nad oes modd derbyn). Mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw le na gafodd ei gynnig; neu,
3. Gall yr ymgeisydd dynnu’r cais i drosglwyddo yn ôl.

### Trefniadau monitro

a. Bydd yr ALl yn cadw cofnod o bob dysgwr 'Anodd ei leoli' a dderbynnir drwy'r Tîm Derbyn/Y Panel, a’r amserlenni.

b. Dylai ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, hysbysu’r ALl os ydynt wedi derbyn dysgwyr ‘Anodd eu lleoli’, fel y diffinnir yn y Protocol hwn, i sicrhau bod y data cywir yn cael ei nodi.

c. Bydd yr ALl yn adrodd i'r Fforwm Derbyn ym mhob cyfarfod ac yn flynyddol i Lywodraeth Cymru.

ch. Os yw'n berthnasol, bydd yr ALl yn rhoi trefniadau monitro a chymorth ar waith ar ôl derbyn yr holl ddysgwyr 'Anodd eu Lleoli'.

d. Bydd y tîm derbyn yn adrodd yn flynyddol ar ganlyniadau’r holl ddysgwyr 'Anodd eu Lleoli' a dderbyniwyd.

dd. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol.